



Cyfarfod

BWRDD PENSIWN

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD LLUN, 22AIN CHWEFROR, 2021

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 12 Chwefror 2021)

BWRDD PENSIWN
AELODAETH
CYNYCHLIOLWYR CYFLOGWR

Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru)

Cyng Aled Lloyd Evans (Cyngor Gwynedd)

Sioned Parry (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy)

CYNYCHLIOLWYR AELODAU

Hywel Eifion Jones (wedi ymddeol – Cyngor Mon gynt)

Osian Richards (Cyngor Gwynedd)

Sharon Warnes (wedi ymddeol - Cyngor Gwynedd gynt)

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYG

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryg ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

6 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 23 Tachwedd 2020 fel rhai cywir

5. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU

11 - 14

Derbyn, er gwybodaeth gofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd 21 Ionawr 2021

6. COFRESTR RISG

15 - 31

Er mwyn deall y risgiau perthnasol i'r Gronfa Bensiwn a chraffu'r Gofrestr Risg

7. Y RHAGLEN WAITH DIWYGIEDIG

32 - 33

I ystyried y Rhaglen Waith am y flwyddyn 2021/22

8. GOFYNIION HYFFORDDIANT Y BWRDD PENSIWN

34 - 59

I ystyried yr adroddiad a derbyn adborth gan y Bwrdd

9. CYFLWYNO CYLLIDEB UNED GWEINYDDU PENSIYNAU AC UNED BUDDSODDI 2021/22

60 - 61

I gyflwyno cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.

10. AMCANION YMGYNGHORWYR 62 - 63

I adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion cyfredol

11. BUDDSODDI CYFRIFOL A BUDDSODDIADAU CARBON ISEL 64 - 68

I ddiweddarau'r Bwrdd ar weithgareddau'r Gronfa yn y meysydd buddsoddi cyfrifol a buddsoddiadau carbon isel, a chyflwyno datganiad drafft

12. RHEOLIADAU TALIADAU YMADAEL Y SECTOR CYHOEDDUS 2020 69 - 71

I ystyried yr adroddiad

13. Y RHEOLYDD PENSIYNAU: AROLWG TREFN LLYWODRAETHOL GWASANAETH CYHOEDDUS 2020 72 - 94

Derbyn adborth gan y Bwrdd er mwyn cwblhau'r arolwg

BWRDD PENSIWN, 23.11.2020

Yn bresennol: H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun), Sioned Parry (Cynrychiolydd Cyflogwr), Osian Richards (Cynrychiolydd Aelodau), Huw Trainor (Cynrychiolydd Cyflogwr) a Sharon Warnes (Cynrychiolydd Aelodau).

Swyddogion: Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ail ethol Osian Richards (Cynrychiolydd Aelodau) yn Gadeirydd y Bwrdd am y cyfnod 2020/21

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ail ethol y Cyng Aled Evans (Cynrychiolydd Cyflogwr) yn Is-gadeirydd am y cyfnod 2020/21

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Aled Evans

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar yr 20 Gorffennaf 2020 fel rhai cywir.

7. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU

Derbyniwyd, er gwybodaeth, gofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2020.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau pellach i'w codi o'r cofnodion

8. CYFRIFON TERFYNOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2020 AC ARCHWILIO PERTHNASOL

Cyflwynwyd adroddiad ynghyd a Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd 2019/20 (ôl archwiliad), gan y Pennaeth Cyllid yn darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31ain 2020. Atgoffwyd yr Aelodau bod drafft o'r cyfrifon wedi eu cyflwyno i gyfarfod 20fed o

Orffennaf 2020, ac er nad oedd y ffigyrau wedi newid, tynnwyd sylw at rai addasiadau i'r naratif yn dilyn archwiliad. Nodwyd bod y Pwyllgor Archwilio, sydd â chyfrifoldeb dros dderbyn y cyfrifon yn ffurfiol, wedi cymeradwyo'r cyfrifon ar y 15fed o Hydref 2020.

Cyfeiriwyd at ychwanegiadau'r Archwilwyr lle nodi'r gwybodaeth am brisiadau'r gronfa eiddo. Yn dilyn atal masnachu ar gronfeydd eiddo fis Mawrth, dadleuwyd bod ansicrwydd prisio sylweddol yn gysylltiedig ar y cronfeydd hyn ac o ganlyniad gall prisiadau'r gronfa eiddo ar 31 Mawrth fod yn destun lefel uwch o ansicrwydd. Yn ychwanegol, adroddwyd er nad oedd yr Archwilwyr wedi amlygu un mater penodol i Gronfa Bensiwn Gwynedd, eu bod wedi nodi tri mater arwyddocaol, sy'n gyffredin ar draws yr holl gronfeydd pensiwn, fyddai'n debygol o gael effaith ar y Gronfa.

- Cydraddoli GMP
- Achos McCloud
- Achos Goodwin

Gwerthfawrogwyd ymroddiad a chywirdeb y gwaith a diolchwyd i'r Rheolwr Buddsoddi a'r tîm am gwblhau'r gwaith mewn cyfnod heriol ac anodd.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â defnydd i-connect, nodwyd bod 99.9% o gyflogwyr y Gronfa bellach yn cyflwyno data drwy'r broses i-connect. Adroddwyd bod Cyngor Sir Ynys Môn a Heddlu Gogledd Cymru bellach wedi trosglwyddo ac ategwyd bod cydweithio da wedi digwydd gyda'r holl gyflogwyr i sicrhau defnydd i-connect sydd, erbyn hyn, yn darparu buddion sylweddol a llwyddiant i'r Gronfa.

PENDERFYNWYD derbyn, er gwybodaeth

- **Y Datganiad o'r Cyfrifon 2019/20 (ôl archwiliad)**
- **Yr adroddiad 'ISA260' gan Deloitte ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd**
- **Y Llythyr Cynrychiolaeth**

9. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn nodi ers sefydlu'r Bartneriaeth yn 2017, bod y Bartneriaeth yn mynd o nerth i nerth gyda swyddogion yn cyfarfod yn aml. Yn ystod cyfnod pandemig covid 19, nodwyd bod holl ddigwyddiadau'r Bartneriaeth wedi bod yn rhithiol gyda'r gwaith o lansio cronfeydd newydd a chynnal nifer o ddigwyddiadau wedi cymryd lle.

Tynnwyd sylw at berfformiad y Gronfa Twf Byd Eang hyd at 30 Medi 2020. Adroddwyd cyn y pandemig bod perfformiad y gronfa yma wedi bod yn uwch na'r meincnod gyda pherfformiad cryf gan Baillie Gifford a Veritas. Amlygwyd bod gan y portffolio yma fuddsoddiadau 'gwerth dwfn', ac oherwydd effaith y pandemig, nodwyd bod y perfformiad yn ddiweddar wedi disgyn y tu ôl i'r meincnod. Ymddengys bod y sectorau traddodiadol megis olew ac arian wedi perfformio'n wael gyda'r sectorau megis technoleg wedi perfformio'n gymharol dda. Eglurwyd bod Russell Investments yn monitro dyraniad y gronfa yma yn barhaus

Cyfeiriwyd at y trosglwyddiad incwm sefydlog a drosglwyddwyd yng Ngorffennaf a Hydref 2020. I'r Gronfa Multi Assesst Credit trosglwyddwyd buddsoddiad gyda Fidelity Global Equity o £166,119,549.08 ac i'r gronfa Absolute Return Bond trosglwyddwyd buddsoddiad gyda Insight o £291,238,172.22.

Tynnwyd sylw at Cynrychiolaeth o'r Byrddau Pensiwn ar Gyd- bwyllgor y Bartneriaeth gan nodi bod hyn wedi bod yn destun trafod ers peth amser bellach. Adroddwyd bod y Pennaeth Cyllid wedi mynychu cyfarfod diweddar ynglŷn â'r mater. Canlyniad y

drafodaeth oedd bod y Cydbwyllgor yn cynnwys 8 aelod y Gronfa (gyda phleidlais yr un) a chynrychiolydd o'r Byrddau Pensiwn (o fewn yr awdurdodau cyfansoddol - heb bleidlais). Adroddwyd bod mwyafrif o'r cronfeydd yn cytuno bod angen rhoi statws i gynrychiolaeth y Bwrdd, ond bod angen penderfyniad unfrydol cyn symud ymlaen. Nodwyd y byddai unrhyw newid yn golygu cyflwyno'r argymhelliad i bob Cyngor unigol i'w dderbyn mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn. Ategwyd bod un cyfarfod pellach wedi ei drefnu i ail-drafod cyn cyflwyno cynnig i'r Cyd -bwyllgor.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Derbyn bod y ffioedd ynghlwm a'r buddsoddiadau, ond nad yw'n adlewyrchu costau sefydlog o sefydlu'r Bartneriaeth.
- Derbyn y trosglwyddiadau ond a yw buddsoddiadau gyda Fidelity yn dod i ben yn benderfyniad da o ystyried bod perfformiad Fidelity wedi bod yn dda?
- Bod angen trefniant mwy ffurfiol sydd yn cyfeirio sylwadau / adlewyrchu argymhellion y Bwrdd a'r modd y maent yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor ac efallai ymlaen i'r Cydbwyllgor - awgrymwyd cyflwyno adroddiad gan y Bwrdd i'r Pwyllgor ynteu fod aelod o'r Bwrdd yn cyflwyno eitem ar lafar

Mewn ymateb i gyhoeddi ffioedd sefydlog nodwyd bod sgôp cyflawni hyn yn 2020/21 gan greu tablau fyddai'n adlewyrchu'r cymhariaethau a'r gwir gostau.

Mewn ymateb i fuddsoddiadau gyda Fidelity yn dod i ben ac os yw hynny yn benderfyniad da o ystyried eu perfformiad, cytunwyd bod perfformiad Fidelity wedi bod yn wych, ond yn dilyn pwysau o fuddsoddi cyfun (lle ceir llai o risg a mwy o sicrwydd o fuddsoddi gyda mwy nag un rheolwr), cytunwyd gyda'r penderfyniad o fynd gyda'r mwyafrif. Ategwyd bod Russell Investments yn cadw golwg ar y perfformiad a phe byddai tanberfformiad, byddai modd addasu oherwydd yr hyblygrwydd o gael mwy nag un rheolwr.

Mewn ymateb i sefydlu trefn ffurfiol i rannu llais y Bwrdd, nodwyd bod Cadeirydd y Pwyllgor yn cynrychioli Gwynedd ar y Bartneriaeth ac yn arsylwi cyfarfodydd Bwrdd Pensiwn Gwynedd. Nodwyd bod sawl enghraifft o lais y Bwrdd yn cael ei dderbyn gan Bwyllgor Pensiynau Gwynedd, ond nad oedd sefyllfa wedi codi lle bod angen cyflwyno llais y Bwrdd i'r Bartneriaeth. Awgrymwyd bod cyflwyno adroddiad ysgrifenedig neu ar lafar yn cynnig argymhellion i'r Pwyllgor yn dderbyniol

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth

10. DIWEDDARIAD AM BERFFORMIAD BUDDSODDI'R GRONFA BENSIWN 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn hysbysu'r Aelodau o fonitro a pherfformiad buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn. Adroddwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd mewn sefyllfa gymharol iach gyda gwerth y gronfa wedi cynyddu yn raddol ers 2010, ond gyda chwymp wedi digwydd ar 31 Mawrth 2020 oherwydd effaith pandemig COVID.

Cafwyd chwarter 1af cryf gyda'r marchnadoedd yn bownsio nol wedi'r cwmp a welwyd yn chwarter olaf 2019/20 gyda gwerthoedd ecwiti byd eang yn parhau i gynyddu, yn enwedig yn yr wythnosau diwethaf wedi'r newydd am y posibilrwydd o frechlyn. Ategwyd bod dychweliadau eiddo'r gronfa wedi perfformio yn dda yn gyffredinol hefyd o gymharu gyda'r meincnod. Ni fu unrhyw fasnachu am gyfnod o fis Mawrth, ond ers mis Medi, bu'r farchnad yn agored. Nodwyd bod asedau preswyl ac archfarchnadoedd wedi perfformio yn dda, ond nad oedd y stryd fawr wedi perfformio cystal, ynghyd ac ansicrwydd ynglyn a dyfodol swyddfeydd. Cyfeiriwyd at Ymddiriedolaeth Eiddo Lothbury oedd wedi perfformio yn is na'r meincnod oherwydd

bod ganddynt amlygiad uchel i'r sector manwerthu, tra bod y Rheolwyr eraill gyda amlygiad i sectorau megis safleodd diwydiannol a chanolfannau iechyd ac felly wedi perfformio'n dda.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynghlyn ag effaith Brexit ar y farchand eiddo adroddwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn dal rhyw 6% o stoc yn y Deyrnas Unedig ac felly dim yn rhagwled effaith fawr, niweidiol. Ategwyd bod meincnod eiddo wedi ei osdo ar 10% a gyda symud arian a thanfuddosddi diweddar y farchnad wedi bod yn drawsnewidiol iawn dros amser. Cytunwyd cynnwys manylion y canrannau meincnod mewn adroddiadau i'r dyfodol.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth

11. **POLISI CYFATHREBU 2020**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn amlygu dymuniad i dderbyn adborth gan y Bwrdd am Ddatganiad Polisi Cyfathrebu newydd. Eglurwyd bod rhaid i'r Gronfa ddarparu, cynnal a chyhoeddi Datganiad Polisi Cyfathrebu yn unol â Rheoliad 67 o Reoliadau Gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL). Ategwyd bod rhaid i'r polisi cyfathrebu gael ei adolygu a'i ailgyhoeddi yn dilyn unrhyw newid mewn polisi. Yn dilyn amryw o newidiadau i ddulliau cyfathrebu diweddar rhaid diwygio'r datganiad i gynnwys dulliau cyfathrebu cyfredol gan ychwanegu defnydd Microsoft Teams, I-Connect a'r adnodd Hunanwasanaeth. Nodwyd nad oedd polisi Gwynedd wedi cael ei ddiweddarw ers 2010 ac felly gwerthfawrogwyd adborth ar y polisi gan y Bwrdd cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth y Pwyllgor Pensiynau.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod y Datganiad Polisi diwygiedig yn glir, teg a chynhwysfawr
- Bod angen sicrhau, wrth ddiwygio, na fydd gwybodaeth yn cael ei golli
- Bod hi'n bwysig gwranddo ac ymateb i ddymuniadau defnyddwyr e.e, os ydynt yn hoffi derbyn gwybodaeth ar bapur yna bod yn barod i ymateb i'w dymunaid
- Bod angen cyfeirio at Bartneriaeth Pensiwn Cymru - pwysig bod y drefn o gyfathrebu rhwng y Gronfa a'r Bartneriaeth yn cael ei gynnwys
- Cyfarfodydd Rhithiol v Cyfarfodydd ar safle – gweithgor wedi ei sefydlu i ganfod manteision ac i ystyried dulliau o ddarparu'r ddau opsiwn mewn un cyfarfod.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth

Tynnwyd sylw nad oedd yr Arolwg Rheolwydd wedi ei gynnal yn ol yr arferiad ac awgrymwyd cynnal cyfarfod arbennig i drafod a rhannu barn. Ategwyd bod hefyd angen diweddarw rhaglen waith y Bwrdd (i gynnwys holiadur hyfforddi Hymans).

Penderfynwyd gofyn i'r swyddogion ddiweddarw'r rhaglen waith a'i rhannu'r gyda'r Aelodau am sylwadau / ychwanegiadau

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:15pm

Eitem 5

PWYLLGOR PENSIYNAU 21-01-21

Presenoldeb: Cynghorydd Peredur Jenkins – Cadeirydd
Cynghorydd Stephen Churchman - Is Gadeirydd

Cynghorwyr: Goronwy Edwards (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Simon Glyn, John Brynmor Hughes, Aled Wyn Jones, John Pughe Roberts, Ioan Thomas, a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

Swyddogion: Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Erail a wahoddwyd: Sharon Warnes (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYN

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2020 fel rhai cywir.

5. CYMERADWYO CYLLIDEB 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn ymwneud a chais i'r Pwyllgor gymeradwyo cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021–2022, ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.

Amlygwyd mai 2019/2020 oedd y tro cyntaf i'r gyllideb ar gyfer yr Unedau gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau am gymeradwyaeth a bod bwriad erbyn hyn i gyflwyno'r wybodaeth yn flynyddol. Addaswyd cyllideb 2019 /20 yn unol ag addasiadau i strwythur staff yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi - man addasiadau yn unig oedd i gyllideb 2021/22 gyda chyllidebau sylfaenol yn parhau'r un fath.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi

6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2020 /21 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

Cyflwynwyd, er gwybodaeth adroddiad yn amlygu gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Amlygwyd, yn ystod y chwe mis rhwng y 1af o Ebrill a 30 Medi 30ain 2020 bod gweithgarwch benthyca'r Cyngor wedi aros o fewn cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol ac nad oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu. Ategwyd yr amcangyfrifir bod incwm buddsoddi'r Cyngor yn is nag incwm disgwyliedig cyllideb 2020/ 21.

Yng ngoleuni'r argyfwng pandemig a'r tebygolrwydd o alwadau annisgwyl ar y llif arian, amlygwyd bod y Cyngor wedi cadw mwy o arian parod ar fyr rybudd nag sy'n arferol. Cafodd arian parod hylif ei arallgyfeirio dros sawl gwrth bartïon a Chronfeydd Marchnad Arian i reoli risgiau credyd a hylifedd.

Eglurwyd bod £10m o fuddsoddiadau'r Cyngor mewn cronfeydd eiddo ac ecwiti cyfun strategol sydd yn cael eu rheoli yn allanol lle mae diogelwch a hylifedd tymor byr yn llai o ystyriaeth. O ganlyniad gwiredir yr amcanion drwy incwm refeniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor.

Adroddwyd bod y Cyngor yn mesur perfformiad ariannol ei weithgareddau rheoli trysorlys o ran ei effaith ar y gyllideb refeniw a'i berthynas â meincnod cyfraddau llog. Nodwyd bod Cyfradd Banc, a oedd yn 0.75% ym mis Chwefror, bellach yn 0.1%, ond bydd y llog a enillir o farchnadoedd arian dyddiedig byr yn sylweddol is. Tynnwyd sylw at y dangosyddion cyfraddau llog ac amlygwyd nad oedd y dangosydd risg '*y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog*' yn cydymffurfio oherwydd effaith cyfraddau llog gwael.

Gyda rhagolygon gwan ac ansefydlog, adroddwyd bod y Cyngor yn buddsoddi cymaint ag y gallent o fewn cyfnod heriol; yn parhau i wneud eu gorau i geisio enillion drwy wasgaru risg, ond hefyd yn gweithredu yn ofalus yn unol â chyngor Arlingclose.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r rhagolygon, amlygwyd bod yr adroddiad wedi ei ysgrifennu ym mis Medi 2020

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth

7. CRONFA BAILLIE GIFFORD GLOBAL ALPHA PARIS ALIGNED FUND

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi i geisio cymeradwyaeth y Pwyllgor i gytuno i symud cronfa graidd Baillie Gifford i gronfa Baillie Gifford Global Alpha Paris Aligned. Atgoffwyd yr Aelodau bod Baillie Gifford wedi cyflwyno gwybodaeth ar y Gronfa Alpha Paris Aligned mewn cyfarfod o'r Panel Buddsoddi 14 Hydref 2020. Eglurwyd bod y Gronfa Global Alpha Paris Aligned yn amrywiad carbon isel o'r model craidd ac yn cyd-fynd ag amcanion Cytundeb Paris ac egwyddorion buddsoddi Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Ategwyd y byddai rhaid i'r holl gronfeydd pensiwn cyfansoddol sydd yn rhan o'r Gronfa Global Growth gytuno i'r trosglwyddiad. Unwaith bydd y cronfeydd wedi gwneud eu penderfyniad yn lleol, bydd penderfyniad swyddogol yn cael ei wneud gan y Cydbwyllgor. Adroddwyd bod hwn yn gam cadarnhaol ymlaen ac y byddai mwy o wybodaeth i ddilyn am welliannau pellach.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD cymeradwyo symud taliadau cyfredol Cronfa Graidd Baillie Gifford i Gronfa Alpha Paris Aligned Baillie Gifford sydd yn rhan o Gronfa Global Growth Partneriaeth Cymru yn unol â'r drafodaeth yn y Panel Buddsoddi ddiweddaraf

8. GOSOD AMCANION I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn yr amcanion cyfredol ynghyd a chais i'r Pwyllgor adolygu a chymeradwyo'r amcanion ar gyfer 2020/21. Adroddwyd, yn dilyn adolygiad o'r marchnadoedd ymgynghori buddsoddi a rheoli ymddiriedol bu i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd nodi'r angen i Ymddiriedolwyr Cronfeydd Pensiwn osod amcanion i'w ymgynghorwyr buddsoddi gan nodi yn glir yr hyn ddisgwylir ganddynt.

Cyfeiriwyd at yr amcanion cyfredol ynghyd a'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion hynny yn ystod 2019/20. Amlygwyd bod yr amcanion wedi bod yn weithredol ers Rhagfyr 2019, ond nad oeddynt wedi eu derbyn yn ffurfiol gan y Pwyllgor er i'r datganiad cydymffurfio fod wedi ei lofnodi gan Gadeirydd y Pwyllgor erbyn y dyddiad cau gofynnol (7fed o Ionawr 2021).

Adroddwyd bod Hymans yn cyflawni gwaith da, yn darparu adroddiadau cynhwysfawr ar gyfer y paneli buddsoddi, yn cynnig cyngor ymarferol, ymatebion a gohebiaeth amserol ac yn perfformio yn unol â'r amcanion.

Diolchwyd am yr adroddiad a gwnaed sylw y bydd disgwyl i'r amcanion gael eu cyflwyno yn flynyddol i'r Pwyllgor Pensiynau yn unol â gofynion y Ddeddf.

Cymerwyd y cyfle i ddiolch i Mr Paul Potter o gwmni Hymans am ei gyngor a'i gefnogaeth i'r Gronfa Bensiwn dros y 12 mlynedd ddiwethaf. Dymunwyd ymddeoliad hapus iddo.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'n ffurfiol amcanion a osodwyd eisoes ar gyfer ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa.

9. RHEOLIADAU TALIADAU YMADAEL Y SECTOR GYHOEDDUS 2020

Cyflwynwyd adroddiad, er gwybodaeth gan y Rheolwr Pensiynau yn rhoi diweddariad ar y rheoliadau cyfyngu taliadau ymadael a ddaeth i rym ar y 4ydd o Dachwedd 2020. Tynnwyd sylw yn yr adroddiad at effaith yr addasiadau diweddar ar weithwyr y sector gyhoeddus ac at ddiwygiadau (drafft) pellach mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi eu cynnig bydd yn debygol o ddod i rym Gwanwyn 2021.

Amlygwyd bod yr addasiadau yn creu dryswch a phwysau gwaith ychwanegol ac mewn ymateb i'r ffactorau cenedlaethol hyn bod darparwr meddalwedd weinyddol y Gronfa yn gorfod diweddarau'r system i gyfrifo'r opsiynau newydd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod rheoliadau taliadau ymadael yn faes cymhleth a thechnegol iawn
- Bod y penderfyniad allan o ddwylo'r Awdurdod ac felly dim dewis ar y mater

Mewn ymateb i sylw, na fydd y cap talu ymadael yn gysylltiedig â mynegai, a fydd y cap felly yn debygol o gael ei adolygu, nodwyd na fydd unrhyw addasiad nag adolygiad pellach i hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn a fydd modd defnyddio cyfandaliad i osgoi terfyn y cap, nodwyd petai newidiadau pellach i'r rheoliadau yna bydd posib defnyddio'r cyfandaliad i dderbyn lleihad budd-dal

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth

10. DATGANIAD POLISI CYFATHREBU NEWYDD

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn gofyn i'r pwyllgor gymeradwyo Datganiad Polisi Cyfathrebu newydd. Eglurwyd bod rhaid i'r Gronfa ddarparu, cynnal a chyhoeddi Datganiad Polisi Cyfathrebu yn unol â Rheoliad 67 o Reoliadau Gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL). Ategwyd bod rhaid i'r polisi cyfathrebu gael ei adolygu a'i ailgyhoeddi yn dilyn unrhyw newid mewn polisi. Yn dilyn amryw o newidiadau i ddulliau cyfathrebu diweddar diwygiwyd y datganiad i gynnwys dulliau cyfathrebu cyfredol gan ychwanegu defnydd Microsoft Teams, I-Connect a'r adnodd Hunanwasanaeth. Nodwyd nad oedd polisi Gwynedd wedi ei ddiweddarau ers 2010. Cyflwynwyd y datganiad polisi i'r Bwrdd Pensiwn 23.11.20 ac fe addaswyd y polisi yn unol â'u sylwadau.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylw canlynol:

- Angen rhoi ystyriaeth i ddulliau cyfathrebu gyda darpar gyflogwyr

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chyfathrebu gyda darpar Aelodau, nodwyd mai mater i bob cyflogwr fyddai nodi bod ymaelodi gyda'r cynllun yn un o fuddion y swydd.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod y datganiad polisi cyfathrebu yn gyson â chanllawiau Polisi Iaith Cyngor Gwynedd

PENDERFYNWYD cymeradwyo mabwysiadu'r Datganiad Polisi Cyfathrebu newydd

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 a daeth i ben 3:05pm

Eitem 6

PWYLLGOR:	Bwrdd Pensiwn
DYDDIAD:	22 Chwerfror 2021
TEITL:	Cofrestr Risg
PWRPAS:	Er mwyn deall y risgiau perthnasol i'r Gronfa Bensiwn a chraffu'r Gofrestr Risg
AWDUR:	Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

1. CYFLWYNIAD

Mae gan y Gronfa Bensiwn Gwynedd Cofrestr Risg er mwyn adnabod a monitro risgiau sylweddol. Mae'r Gofrestr Risg yn cynnwys y prosesau mewn lle er mwyn lleddfu'r risgiau os yw'n bosibl.

Dangoswyd copi o'r gofrestr risg gyntaf i'r Bwrdd yn y cyfarfod ar 5 Ebrill 2017. Mae bellach wedi'i ddiweddarau yn 2018, 2019 a nawr eto yn 2021 yn unol â sylwadau a dderbyniwyd gan y Bwrdd ac newidiadau sydd wedi cymryd lle yn y cyfamser.

Mae copi o'r Gofrestr gyfredol ynghlwm fel Atodiad A.

Mae'n ddogfen weithredol a bydd adolygiad rheolaidd a diweddariad ar gyfer unrhyw risgiau sylweddol sydd yn datblygu.

2. RÔL Y BWRDD

Gofynnir i aelodau'r Bwrdd craffu'r gofrestr risg a dod ac unrhyw sylwadau neu gynigion i'r cyfarfod

CRONFA BENSIWN GWYNEDD

COFRESTR RISG: Fersiwn 4 – Chwefror 2021

Matrics Asesu Risg					
Tebygolrwydd	5	10	15	20	25
	4	8	12	16	20
	3	6	9	12	15
	2	4	6	8	10
	1	2	3	4	5
Efaith					

Tud. 15

Asesu'r Effaith				
		Ariannol	Enw da	Rhanddeiliaid / Cwsmeriaid
1	Bach iawn	< £35k	Colled fach iawn a byrhoedlog o ymddiried y cyhoedd.	Effaith leiaf bosib i randaliadau a chwsmeriaid.
2	Bach	£35k - £300k	Colli ychydig o ymddiried gyda ddim effaith barhaol. Ychydig o gyhoeddusrwydd gwael.	Effaith bychan i randaliadau neu gwsmeriaid ac anfodlonrwydd cwsmeriaid. Tarfu cyfyngedig ar wasanaeth.
3	Cymedrol	£300k - £3m	Colled gymedrol mewn ymddiried sy'n derbyn cyhoeddusrwydd andwyol sylweddol yn lleol heb unrhyw effaith barhaol.	Dim effaith barhaol. Tarfu cymedrol i randaliadau neu gwsmeriaid ac anfodlonrwydd cwsmeriaid. Tarfu cymedrol ar wasanaeth.
4	Mawr	£3m - £30m	Colled sylweddol o ymddiried ac sy'n derbyn sylw yn y cyfryngau lleol gyda photensial o gael effaith barhaol.	Amhariad sylweddol i'r gwasanaeth a gwrthwynebiad gan randaliadau a / neu gwsmeriaid. Bygythiad o gamau cyfreithiol.
5	Trychinebus	> £30m	Colled sylweddol o ymddiried ac sy'n derbyn sylw yn y cyfryngau cenedlaethol gyda photensial o gael effaith barhaol.	Amhariad mawr i'r gwasanaeth a gwrthwynebiad sylweddol gan randaliadau a / neu gwsmeriaid. Camau cyfreithiol. Cof hirdymor cyhoeddus.

Asesu Tebygolrwydd			
		Disgrifiad o'r tebygolrwydd	Tebygolrwydd rhifol
1	Prin	Yn ôl pob tebygolrwydd ni fydd hyn digwydd / ailddigwydd.	0 dan 1%
2	Annhebygol	Dim yn disgwyl iddo ddigwydd / ddigwydd eto, ond mae'n bosib iddo ddigwydd.	1% - o dan 5%
3	Posibl	Allai ddigwydd neu ddigwydd eto o bryd i'w gilydd.	5% - o dan 20%
4	Tebygol	Mae'n debyg y bydd yn digwydd / ddigwydd eto, ond nid yw'n fater neu amgylchiadau parhaus.	20% - o dan 50%
5	Tebygol iawn	Bydd yn digwydd / digwydd eto heb amheuaeth, o bosib yn aml. Mae'n brosiect sy'n fwy tebygol o fethu na llwyddo.	Dros 50%

Rhif Risg	Disgrifiad o'r Risg ac Effaith Bosibl	Risg Cynhenid			Rheolaethau Lliniaru	Risg Cyfredol			Perchennog Risg	Cynlluniau Ychwanegol	Amserlen
		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr Gyfunol		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr Gyfunol			
Llywodraethu											
	<p>Nid oes gan yr Awdurdod Gweinyddu trefniadau llywodraethu priodol mewn grym gan gynnwys y gofyniad ar gyfer Bwrdd Pensiynau, a gall hyn arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> Diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth neu arferion gorau. Anallu i bennu polisi, gwneud penderfyniadau a / neu ddarparu gwasanaeth. 	4	3	12	<p>Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd (CBG) Datganiad Polisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfriad Llywodraethu fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau CPLIL 2008.</p> <p>Mae'r ddau ddatganiad yn cael eu hadolygu a'u diweddarau pan fo angen. Ymgynghorir gyda chyflogwyr y Cynllun pan fydd newidiadau yn cael eu cynnig er mwyn sicrhau bod y polisi yn dal yn briodol.</p> <p>Mae'r Datganiad hwn ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd: www.cronfabensiwngwynedd.org.uk</p>	3	1	3	<p>Pennaeth Cyllid</p> <p>Rheolwr Buddsoddiadau</p>		

	<ul style="list-style-type: none"> Risg i enw da. 				<p>Mae gan CBG Bwyllgor Pensiynau i gyflawni'r dyletswyddau'r Cyngor fel Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn.</p> <p>Mae Bwrdd Pensiwn Gwynedd wedi ei sefydlu yn unol a Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.</p> <p>Mae cymorth a hyfforddiant yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod gan aelodau'r bwrdd y wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni eu rôl.</p>						
Tud. 17	Gwrthdaro Buddiannau yn effeithio, neu'n cael eu gweld i effeithio ar wneud penderfyniadau	2	2	4	<p>Mae aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd yn ymwybydol o'r cyfrifoldebau cyfreithiol</p> <p>Mae holl aelodau'r Bwrdd Pensiwn yn datgan unrhyw wrthdaro a gwrthdaro posibl ar ddechrau bob cyfarfod.</p>	1	2	2	<p>Pwyllgor Pensiynau</p> <p>Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn</p> <p>Pennaeth Cyllid</p>		
	<p>Nid yw'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol sydd yn arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> Diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth neu arferion gorau. Anallu i bennu polisi, gwneud penderfyniadau a / neu ddarparu gwasanaeth. Risg i enw da. 	4	3	12	<p>Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Wybodaeth a Sgiliau ac mae hyfforddiant rheolaidd yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod aelodau yn cael y lefel o ddealltwriaeth sy'n ofynnol.</p> <p>Mae rhaglen hyfforddi ac anwytho ar gael ar gyfer aelodau newydd o'r Pwyllgor a'r Bwrdd.</p> <p>Mae'r Gronfa yn tanysgrifio i gyrff perthnasol (hy CIPFA a LAPFF) ac yn anfon cynrychiolwyr i gynadleddau mawr.</p> <p>Mae aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd yn cael gwybod am ac yn cadw at y Datganiad Llywodraethu a Chydymffurfio ac yn cael eu hannog i nodi eu gofynion hyfforddi.</p>	3	2	6	<p>Rheolwr Buddsoddiadau</p> <p>Mae aelodau newydd y Pwyllgor a'r Bwrdd wedi cael hyfforddiant sylfaenol.</p> <p>Mae hyfforddiant perthnasol yn cael ei cynnig i'r aelodau'r Pwyllgor ac aelodau y bwrdd</p>		

Cyllid a Buddsoddiadau											
Tud 18	<p>Mae Aelodau'r Pwyllgor a'r Swyddogion Buddsoddi yn gwneud penderfyniadau amhriodol o ganlyniad i wybodaeth annigonol o farchnadoedd ariannol a buddsoddi annigonol a chyngor actiwariaid a dderbyniwyd sy'n arwain at:</p> <p>Perfformiad gwael y Gronfa.</p> <p>Colled ariannol.</p> <p>Cyfraniadau cyflogwr uwch.</p>	5	3	15	<p>Mae Strategaeth Buddsoddi CBG wedi ei osod yn unol â rheoliadau buddsoddi Pensiwn Llywodraeth Leol.</p> <p>Mae'r Strategaeth Fuddsoddi yn cymryd rhwymedigaethau'r Gronfa i ystyriaeth.</p> <p>Mae'r Strategaeth Fuddsoddi yn cael ei gymeradwyo a'i adolygu gan y Pwyllgor Pensiynau.</p> <p>Mae CBG yn defnyddio ymgynghorydd buddsoddi allanol sy'n rhoi arweiniad arbenigol i'r Panel buddsoddi a'r Pwyllgor Pensiynau ynghylch y Strategaeth Buddsoddi.</p> <p>Mae Aelodau a Swyddogion yn cael eu hannog i herio'r cyngor ac arweiniad a dderbyniwyd.</p>	2	2	4	Pennaeth Cyllid	Rheolwr Buddsoddiadau	
	<p>Mae gan y Gronfa Bensiwn asedau annigonol i gwrdd â'i rwymedigaethau tymor hir.</p> <p>Mae strategaeth fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn yn methu â dangos y dychwelyd gofynnol.</p> <p>Caiff perfformiad ei ddifrodi gan:</p> <ul style="list-style-type: none"> Methiant Rheolwyr y Gronfa i gynhyrchu'r dychweliadau angenrheidiol. Rheolwyr y Gronfa yn difrodi perfformiad drwy fethu a gwneud newidiadau 	5	3	15	<p>Mae'r prisiant bob tair blynedd yn darparu arwyddion cyfnodol o'r twf mewn asedau yn erbyn atebolrwydd. Mae cyfraddau cyfraniad cyflogwr yn cael eu gosod mewn ymateb i hyn.</p> <p>Mae prisiant 2019 yn cynnwys darpariaeth i'r gronfa sicrhau cyllid llawn dros 17 mlynedd. Dangosodd prisiant 31 Mawrth 2019 bod darpariaeth o 108% yng Nghronfa Gwynedd</p> <p>Mae buddsoddiadau CBG yn cael eu harallgyfeirio ar draws ystod o wahanol fathau o asedau er mwyn lleihau effaith y colledion mewn marchnadoedd unigol.</p>	2	2	4	Rheolwr Buddsoddiadau	Er bod y gronfa wedi'i hariannu 108% ar 31 Mawrth 2019, mae'r gronfa yn dal i ddefnyddio rhagdybiaethau darbodus ar gyfer y prisiad.	

Tud. 19	<p>sefydliadol neu wyriadau rheolwr.</p> <p>Gan arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Colled ariannol. • Dim digon o arian ar gael i fodloni rhwymedigaethau yn y dyfodol. 				<p>Mae meincnodau a thargedau ariannol-benodol yn cael eu gosod.</p> <p>Mae asedau'r Gronfa yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r broses rheoli perfformiad y Gronfa.</p> <p>Mae rheolwyr y Gronfa yn cael eu gwirio yn drylwyr cyn eu penodi ac adolygir perfformiad yn rheolaidd yn erbyn y meincnod ac amcanion perfformiad gan y Panel Buddsoddi.</p> <p>Gallai gweithredu priodol cael eu cymryd os ydi Rheolwr Buddsoddi yn tanberfformio.</p> <p>Bydd dyfnder o arbenigedd yn y tîm buddsoddi'r gronfa yn cael ei asesu fel rhan o'r broses benodi.</p> <p>Mae targedau perfformiad yn cael eu cytuno gan y Pwyllgor Pensiynau ac maent yn seiliedig ar argymhellion ar gyfer ymgynghorydd allanol.</p> <p>Mae'r gan y Pwyllgor Pensiynau'r grym i derfynu contract rheolwr gronfa os tybir nad yw'r rheolwr wedi perfformio yn ôl y disgwyl, neu mae pryderon ynghylch perfformiad yn y dyfodol oherwydd newid yn y sefydliad neu os yw rheolwr yn gadael.</p>						
	<p>Mae'r gronfa yn agored i risgiau diangen a chostau y gellir eu hosgoi oherwydd trefniadau buddsoddi strwythuro'n wael sy'n arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Colled ariannol. 	5	3	15	<p>Nod y Gronfa yw sicrhau gwerth gorau ac i leihau amlygiad i risg fel a ganlyn:</p> <p>Mae buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu harallgyfeirio traws ystod o wahanol fathau o asedau er mwyn lleihau effaith y colledion mewn marchnadoedd unigol.</p>	2	2	4	Rheolwr Buddsoddiadau		

					<p>Mae rheolwyr buddsoddi yn darparu anfonebau ar gyfer ffioedd a datgelu ffioedd o fewn cronfeydd.</p> <p>Ystyrir gwasanaethau arbenigol megis trawsnewidiadau neu drosglwyddiadau arian cyfred yn lle y bo'n briodol er mwyn lleihau costau.</p> <p>Mae trefniadau Bancio a cheidwad yn cael eu hadolygu a'u hail-dendro fel y bo'n briodol.</p>						
Tud. 20	<p>Cwmp rheolwr cronfa neu esgeulustod, twyll neu ddiffyg bwriadol a gyflawnwyd gan reolwr cronfa gan arwain at:</p> <p>Colled ariannol.</p>	4	3	12	<p>Mae'r Gronfa yn ystyried sefydlogrwydd ariannol rheolwyr yn ystod y broses benodi ac mae'r sefyllfa yn cael ei adolygu yn gyson.</p> <p>Mae CPG yn defnyddio gwasanaeth ceidwad byd-eang i sicrhau bod buddsoddi asedau yn cael eu gwahanu o'r ddalfa o asedau.</p> <p>Mae gofynion cyfreithiol ar gyfer rheolwyr y gronfa yn cael eu nodi yn eu cytundebau rheoli.</p> <p>Mae'n ofynnol i reolwyr y Gronfa i fod yn cydymffurfio'n llawn â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR) a gofynion rheoleiddio eraill.</p> <p>Gall ceidwad y Gronfa ymdrin i ddarparu gwasanaeth pontio os yw rheolwr yn y gronfa yn cael ei ddirwyn i ben.</p>	2	3	6	Rheolwr Buddsoddiadau		
	<p>Risg y Farchnad - Cwmp yn y farchnad yn arwain at fethiant i leihau'r diffyg, sy'n golygu:</p> <p>Colled ariannol.</p>	5	4	15	<p>Mae'r Gronfa yn cael ei arallgyfeirio ar draws ystod o ddisbarthiadau asedau i liniaru effaith perfformiad gwael mewn segment marchnad unigol.</p>	3	3	9	Rheolwr Buddsoddiadau		

	Cynnydd mewn costau cyfraniad y cyflogwr.				Mae trefniadau perfformiad buddsoddi a monitro yn bodoli sy'n darparu swyddogion buddsoddi gyda'r hyblygrwydd i ail-gydbwysu'r portffolio mewn modd amserol. Mae natur tymor hir y rhwymedigaethau yn darparu rhywfaint o lliniaru, gan fod y marchnadoedd yn codi a gostwng i lawr ac i fyny sy'n lleihau yn sylweddol yr effaith.						
	Risg hylifedd - dim digon o arian i gwrdd â rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus	4	3	12	Mae'r rheolwyr yn paratoi rhagolygon llif arian cyfnodol i ddeall a rheoli amseriad llif arian y Gronfa. Mae'r lefel strategol briodol o falansau arian parod i'w dal yn rhan o strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.	4	2	8	Rheolwr Buddsoddiadau		
Tud. 21	Risg cyfradd llôg - Yn deillio o'r risg y bydd gwerth teg neu lif arian parod offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio oherwydd newidiadau yng nghyfraddau llôg y farchnad	4	3	12	Mae risg cyfradd llog y Gronfa yn cael ei fonitro fel mater o drefn yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, gan gynnwys monitro'r amlygiad i gyfraddau llog ac asesu cyfraddau llog gwirioneddol yn erbyn y meincnodau perthnasol.	4	2	8	Rheolwr Buddsoddiadau		
	Risg arian cyfred - bydd gwerth teg llif arian parod offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio oherwydd newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid tramor a allai arwain at: Ostyngiad yn y lefel gyllido Gynnydd yng nghostau cyflogwyr gan y byddai'n rhaid cynyddu cyfraddau cyfraniadau Cyflogwyr.	4	3	12	Sefydlu ac adolygu dyraniad asedau strategol (o fewn rhanbarthau).	4	2	8	Rheolwr Buddsoddiadau		
	Mae'r Gronfa yn methu â rhoi cyfrif digonol am newid yn yr hinsawdd, risg hinsawdd a ffactorau	4	3	12	Sefydlu a datblygu polisi risg hinsawdd addas	4	2	8	Rheolwr Buddsoddiadau	Llunio polisi risg hinsawdd addas	2021

	<p>amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) a all arwain at:</p> <p>Golled ariannol i asedau o fewn y gronfa</p> <p>Risg i enw da'r Gronfa Bensiwn</p>				Ymgysylltu a herio rheolwyr yn gyson ar sut maent yn cyfrif am risg / newid yn yr hinsawdd a ffactorau ESG.						
	<p>Tâl a phrisiau chwyddiant yn sylweddol fwy na'r disgwyl sy'n arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnydd mewn rhwymedigaethau sy'n fwy na'r amcangyfrif yn y prisiant blaenorol. 	3	3	9	<p>Mae ffocws y broses prisiant actiwariaid ar enillion gwirioneddol asedau, net o brisiau a thâl yn cynyddu.</p> <p>Mae cyflogwyr yn talu am eu dyfarniadau cyflog eu hunain.</p> <p>Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i fuddsoddiadau mewn cronfeydd seilwaith sy'n helpu i liniaru'r risg hwn.</p>	2	3	6	Rheolwr Buddsoddiadau		
Tud. 22	<ul style="list-style-type: none"> Cynnydd yn nifer yr ymddeoliadau cynnar oherwydd toriadau gwasanaeth cyhoeddus a / neu iechyd gwael sy'n arwain at rwymedigaethau pensiwn yn cynyddu. Cynnydd mewn rhwymedigaethau sy'n fwy na'r amcangyfrif yn y prisiant blaenorol. 	3	5	10	<p>Mae cyflogwyr yn talu cost cyfalaf ychwanegol ar gyfer ymddeoliadau cynnar sydd ddim yn ymwneud ac ymddeoliadau salwch yn dilyn pob penderfyniad unigol.</p> <p>Mae ymddeoliadau salwch y Cyflogwyr yn cael ei fonitro.</p> <p>Mae'n ofynnol i gyflogwyr bach i gymryd yr yswiriant ymddeoliad salwch a ddarperir gan y Gronfa.</p>	1	5	5	Rheolwr Buddsoddiadau		
	<p>Mae'r disgwyliad oes gyfartalog o bensiynwyr yn fwy nag a dybiwyd yn dybiaethau actiwariaid.</p> <p>Mae cynnydd mewn rhwymedigaethau yn fwy na'r amcangyfrif prisiant blaenorol.</p>	4	4	16	<p>Mae rhagdybiaethau disgwyliad oes yn cael eu hadolygu ym mhob prisiant.</p> <p>Mae'r Gronfa yn defnyddio tybiaethau pwrpasol ar sail y disgwyliad oes ar draws ardal Cronfa Bensiwn Gwynedd.</p> <p>Mae tybiaethau marwolaeth cynnwys rhywfaint o lwfans ar gyfer cynnydd mewn disgwyliad oes yn y dyfodol.</p>	2	4	8	Rheolwr Buddsoddiadau		

	<p>Nid yw cyfraniadau cyflogwyr y cynllun i'r Gronfa yn cael eu derbyn neu eu prosesu neu eu cofnodi yn gyflawn ac yn gywir.</p> <p>Cynnydd mewn costau i'r cyflogwyr eraill yn y Cynllun.</p>	4	3	12	<p>Amserlenni ffurfiol ar gyfer derbyn cyfraniadau.</p> <p>Mae'r tîm yn monitro derbyn cyfraniadau i'r gronfa yn agos.</p> <p>Mae'r tîm yn cyfathrebu'n rheolaidd â chyflogwyr cynllun i sicrhau bod cyfraniadau yn cael eu gwneud mewn modd amserol ac yn cael eu cofnodi'n gywir.</p> <p>Mae manylion unrhyw gyfraniadau sydd heb eu talu neu eu talu yn hwyr yn cael eu cofnodi ac mae camau priodol yn cael eu cymryd er mwyn adennill taliadau.</p>	2	2	4	Rheolwr Buddsoddiadau		
Tud. 23	<p>Mae cyflogwr yn peidio â bodoli heb gyllid digonol ar gael i ddatrys unrhyw ddyledion, neu'n gwrthod talu gwerth rhoi'r gorau.</p> <p>Cyflogwyr sy'n gadael yn peidio cwrdd â'i rwymedigaethau sy'n arwain at gynnydd mewn costau ar draws y cyflogwyr sy'n weddill y Cynllun.</p>	4	3	12	<p>Mae'r risg yn cael ei leddfu gan:</p> <p>Gwirio cyflogwyr arfaethedig cyn derbyn fel cyflogwr a sicrhau eu bod yn deall eu rhwymedigaethau.</p> <p>Mae ceisiadau am fynediad i'r Gronfa yn cael eu hystyried yn ofalus ac mae bond neu warant yn cael ei roi mewn lle os oes angen.</p> <p>Bydd rhwymedigaethau rhagorol yn cael eu hasesu ac adennill oddi wrth unrhyw gyrff olynol neu ledaenu ymhlith cyflogwyr sy'n weddill.</p> <p>Mae'r prisiant actiwariaid yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng cyfnod adennill gyda risg o dynnu'n ôl.</p> <p>Os oes angen, bydd camau cyfreithiol priodol yn cael eu cymryd.</p>	3	3	9	Pennaeth Cyllid Rheolwr Pensiynau	Dynodwyd 7 cyflogwr heb unrhyw Gytundebau Derbyn. Wedi cymryd camau i unioni hyn.	2021

	<p>Buasai nifer sylweddol o aelodau'r CPLIL yn trosglwyddo eu potiau pensiwn i ddarparwyr Pensiynau eraill er mwyn cael cyfalaf o dan ddeddfwriaeth "Rhyddid a Dewis" y Llywodraeth yn arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> Llif arian sylweddol o'r Gronfa. Gostyngiad mewn asedau sy'n fwy na gostyngiad yn rhwymedigaethau'r Gronfa. 	4	3	12	<p>Mae'r risg yn cael ei leddfu gan: Cyfathrebu effeithiol o'r manteision o aros yn y CPLIL.</p> <p>Dylid cyfrifiadau actiwariaid sicrhau nid yw gwerth trosglwyddo yn fwy na'r lleihad yn atebolrwydd.</p> <p>Gofyniad i ofyn am Gyngor ariannol os yw'r trosglwyddiad yn fwy na £ 30,000.</p>	2	2	4	<p>Rheolwr Pensiynau</p> <p>Rheolwr Buddsoddiadau</p>		
Tud. 24	<p>Canlyniad y Refferendwm UE a'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd yn arwain at ansefydlogrwydd economaidd sylweddol ac arafu ac o ganlyniad enillion buddsoddiadau is yn arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> Colled ariannol a / neu fethiant i fodloni disgwyliadau dychwelyd. Cynnydd mewn costau chyfraniad cyflogwr. 	5	4	20	<p>Mae buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu harallgyfeirio traws ystod o wahanol fathau o asedau er mwyn lleihau effaith y colledion mewn marchnadoedd unigol.</p> <p>Bydd y Gronfa yn ystyried yr effaith pan fydd telerau'r gadael yr UE yn glir a bydd yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol.</p>	3	4	12	Rheolwr Buddsoddiadau		
Cadwraeth											
	<p>Methiant ceidwad yn arwain at golledion sy'n golygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Methiant i leihau'r diffyg. Colled ariannol. 	5	3	15	<p>Mae asedau'r Gronfa yn cael eu diogelu mewn achos o ansolfedd y ceidwad.</p> <p>Mae'n rhaid i'r ceidwad gadw at reoliadau ariannol FCA a TPR.</p>	2	2	4	Rheolwr Buddsoddiadau		
Pwll Buddsoddi Cymru											
	<p>Nid oes gan Gronfa Bensiwn Gwynedd adnoddau digonol ar gael i gyflwyno'r cais cyfuno o fewn yr amserlen ofynnol heb effeithio ar reoli dydd i ddydd y gronfa.</p>	5	5	25		5	5	25	Pennaeth Cyllid	<p>Mae angen adnoddau staff ychwanegol pan daw'n amlwg nad oes digon o adnoddau ar gael i fwrw ymlaen â'r</p>	

	Mae rheolaeth y Gronfa Bensiwn yn cael ei effeithio oherwydd bod adnoddau presennol yn gweithio ar sefydlu'r gronfa buddsoddi.										cynnig heb effeithio rheoli'r gronfa o ddydd i ddydd.	
Cyfathrebu												
Tud. 25	<p>Cyfathrebu ac ymgysylltu annigonol a Rhandaliadau'r Gronfa Bensiwn.</p> <p>Anallu i bennu polisi, gwneud penderfyniadau effeithiol a / neu ddarparu'r gwasanaeth.</p> <p>Risg i enw da'r Gronfa.</p>	3	3	9	<p>Mae Polisi Cyfathrebu yn ei le.</p> <p>Mae gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gadw'n gyfredol.</p> <p>Mae perfformiad y Gronfa yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Buddsoddi a Phensiwn y Gronfa yn rheolaidd.</p> <p>Cynhelir cyfarfodydd o bryd i'w gilydd ag Awdurdodau Cyflogi'r Gronfa.</p> <p>Mae Datganiadau Buddion Blynyddol a chylchlythyrau yn cael eu hanfon yn flynyddol i aelodau actif a gohiriedig y Gronfa.</p> <p>Mae'r rhestr gyswilt ar gyfer cyflogwyr yn cael ei diweddarau'n rheolaidd.</p> <p>Mae Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei gynnal ar gyfer cyflogwyr ac Undebau Llafur.</p> <p>Mae'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn cael eu cyhoeddi ar wefan Gronfa Bensiwn Gwynedd.</p> <p>Mae gwefan Hunanwasanaeth Aelod ar gael i aelodau i gyfrifo buddion eu hunain.</p>	3	2	6	Rheolwr Pensiynau	Mae angen adolygu gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd	2022	

Gwarchod data											
	<p>Efallai na fydd y systemau a data'r Gronfa Bensiwn yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn briodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Colli data sensitif. • Risg o golli enw da. <p>Colled ariannol sy'n deillio o gamau cyfreithiol.</p>	3	2	6	<p>Mae'n ofyniad gorfodol i bob gweithiwr i ymgymryd â hyfforddiant Diogelu Data a glynu at bolisi diogelu data Gwynedd.</p> <p>Ble mae'n bosib, defnyddir system e-bost Egress (system e-bost diogel) i anfon e-byst i gyflogwyr nad ydynt wedi'u rhestru ar restr y Sefydliad E-bost Diogel.</p>	3	1	3	Rheolwr Pensiynau		
Gweinyddiaeth Pensiynau											
	<p>Buddion pensiwn ddim yn cael eu talu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Risg o golled ariannol sy'n deillio o hawliadau iawndal. • Difrod i enw da. 	4	2	8	<p>Mae'r system gyflogres wedi cael ei sefydlu i dalu pensiynwyr yn fisol.</p> <p>Mae cynllun adfer trychineb ar waith gyda Heywood a fydd yn adfer data o fewn 7 diwrnod mewn achos o fethiant systemau.</p>	4	1	4	Rheolwr Pensiynau		
